

Y Gwasanaeth Cofnodion Dysgwyr – Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r wybodaeth rydych yn ei ddarparu yn cael ei ddefnyddio gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS). Mae'r LRS yn cyhoeddi Rhif Adnabod Unigryw i'r Dysgwyr (ULN) ac yn creu cofnodion Dysgu Personol ar draws Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Ceir ei weithredu gan yr Asiantaeth Addysg a Sgiliau, sef un o ganghennau gweithredol Yr Adran Addysg (DfE). Am wybodaeth bellach ar sut y prosesir eich gwybodaeth, ac er mwyn cael gafael ar eich Cofnod Dysgu Personol, ewch i:

<https://www.gov.uk/government/publications/lrs-privacy-notice>

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS) yn eich darparu â rhif Adnabod Dysgwr Unigryw (ULN). Mae'r LRS yn rhoi ULN i ddysgwyr yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon ac yn cael ei weithredu gan Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA), sef asiantaeth weithredol Adran Addysg (DfE) Lloegr. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Ar gyfer dibenion deddfwriaethau diogelu data perthnasol, y DfE yw'r rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol a brosesir.

Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Gweithredir y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS) gan ESFA. Mae'r LRS yn casglu data ynghylch dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau ôl-14 perthnasol, er enghraifft:

- TGAU a Safon Uwch
- Mynediad i Dystysgrifau Cyflogaeth
- Fframweithiau Cymwysterau a Reoleiddir
- Bagloriaeth Cymru ac unedau cysylltiedig

Mae'r LRS yn defnyddio'ch gwybodaeth i:

- **Greu Rhif Dysgwr Unigol (ULN)**
- **Creu Cofnod Dysgu Personol (PLR)**

Mae'r ULN yn galluogi sefydliadau yn y sector addysg a hyfforddiant, Cyrff Dyfarnu a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru (QiW) yng Nghymru, Ofqual y Lloegr a'r CCEA yng Ngholedd Iwerddon i rannu gwybodaeth am gyfranogiad a chyrhaeddiad mewn modd cyson a gymeradwyir, gan hyrwyddo arferion rhannu gwybodaeth da a helpu i sicrhau cywirdeb ac effeithiolrwydd. Mae o fudd i chi drwy gyfoethogi prosesau ymgeisio i Sefydliadau Dyfarnu, darparwyr dysgu, cynghorwyr dysgu a thrydydd partïon eraill.

Mae'r PLR yn casglu ac yn cadw'ch gwybodaeth am gyfranogiad addysg, hyfforddiant a chyrhaeddiad yn uniongyrchol o sefydliadau addysgol a chyrrff eraill.

Sut rydym yn casglu'ch gwybodaeth bersonol

Mae LRS yn casglu gwybodaeth gan:

- Yr Adran Addysg, ysgolion a darparwyr hyfforddiant/dysgu
- Gwybodaeth a ddarperir gennych wrth gofrestru gyda'r darparwr hyfforddiant/dysgu
- Data cyfranogiad a chyrhaeddiad a gedwir gan Lywodraeth Cymru

- Data cyrhaeddiad a ddarperir gan sefydliadau dyfarnu

Sut rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol

Mae'n ofynnol i bob sefydliad sydd yn rheoli data personol amdanoch chi ac yr ydym yn ei gadw yn yr LRS gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac ymdrin â'ch gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data ddiweddaraf.

Gall sefydliadau gael mynediad i'r LRS drwy gytundeb â'r Adran Addysg. Sefydliadau sy'n gysylltiedig â'ch addysg a'ch hyfforddiant yn unig sy'n gallu cael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol drwy'r LRS, gan gynnwys sefydliadau a bennwyd yn y Rheoliadau o dan adran 537A y Ddeddf Addysg.

Mae gan sefydliadau dyfarnu fynediad cyfyngedig i ddata cyrhaeddiad yr ydym yn cadw amdanoch, er mwyn gwirio ei gywirdeb.

Am ba mor hir bydd y Coleg yn cadw'ch data?

Byddwn dim ond yn cadw data tra bydd eu hangen arnom ac ar ôl hynny, byddwn yn eu dileu'n ddiogel. Cedwir eich gwybodaeth bersonol yn y Cofnod Dysgu Personol am 66 o flynyddoedd. Efallai y bydd angen i ni gadw'ch gwybodaeth bersonol arall am byth at ddibenion ystadegol ac ymchwil.

Eich hawliau diogelu data

Mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad i ddata personol y mae'r Coleg yn eu cadw amdanoch
- Gofyn i'r Coleg gywiro'ch data personol, os yw'n anghywir neu'n anghyflawn
- Mynnu y caiff eich data personol eu dileu neu eu tynnu lle nad oes rheswm cymhellgar dros barhau i'w prosesu
- Cyfyngu ar brosesu eich data personol (h.y. caniatáu eu cadw ond nid eu prosesu ymhellach)
- Gwrthod marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio) a phrosesu at ddibenion ymchwil wyddonol/hanesyddol ac ystadegol
- Peidio â bod yn destun penderfyniadau a wnaed yn seiliedig ar brosesu awtomatig lle bydd effaith gyfreithiol neu sylweddol a thebyg arnoch

Cysylltu â ni ynghylch eich gwybodaeth

Os hoffech chi:

- Ragor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n prosesu'ch gwybodaeth bersonol neu'ch hawliau diogelu data
- I wneud cais am eich gwybodaeth – er enghraifft, gofyn am gopi o'ch gwybodaeth neu ofyn i newid gwybodaeth

Dilynwch y canllawiau ar [how to access your personal learning record](#)

Os hoffech chi gyflwyno cwyn am sut rydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth neu gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, gallwch ddefnyddio ein [online contact form](#) neu ysgrifennu atom:

Ministerial and Public Communications Division
Department for Education
Piccadilly Gate
Store Street
Manchester
M1 2WD